ATODLEN 11

Darpariaethau Diogelu

# RHAN 1

## Diogelu ymgymerwyr trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth

**2.** Yn y Rhan hon—

ystyr "cyfarpar amgen" yw cyfarpar amgen sy'n ddigonol i alluogi'r ymgymerwr cyfleustod dan sylw i gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn modd nad yw'n llai effeithlon na chynt;

ystyr "cyfarpar"—

(a) yn achos ymgymerwr cyfleustod o fewn paragraff (a) o'r diffiniad o'r term hwnnw, yw llinellau trydan neu safle trydanol (fel y'u diffiniwyd yn Neddf Trydan 1989(**1**) sy'n eiddo i'r ymgymerwr cyfleustod neu sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan yr ymgymerwr cyfleustod;

(b) yn achos ymgymerwr cyfleustod o fewn paragraff (b) o'r diffiniad o'r term hwnnw, yw unrhyw brif bibellau, pibellau neu gyfarpar arall sy'n eiddo i'r ymgymerwr cyfleustod neu sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan yr ymgymerwr cyfleustod at ddibenion cyflenwi nwy;

(c) yn achos ymgymerwr cyfleustod o fewn paragraff (c) o'r diffiniad o'r term hwnnw, yw prif bibellau, pibellau neu gyfarpar arall sy'n eiddo i'r ymgymerwr cyfleustod neu sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan yr ymgymerwr cyfleustod at ddibenion cyflenwi dŵr; a

(d) yn achos ymgymerwr cyfleustod o fewn paragraff (d) o'r diffiniad o'r term hwnnw—

(i) yw—

(aa) unrhyw ddraen neu weithfeydd a freiniwyd yn yr ymgymerwr cyfleustod o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991; a

(bb) unrhyw garthffos y'i breiniwyd felly neu'n sy'n destun hysbysiad o fwriad i'w mabwysiadu a roddwyd o dan adran 102(4) o'r Ddeddf honno(**2**) neu gytundeb i fabwysiadu a wnaed o dan adran 104 o'r Ddeddf honno, a

(ii) yn cynnwys prif bibell slwtsh, prif bibell waredu (o fewn ystyr adran 219 o'r Ddeddf honno) neu ollyngfa garthffosiaeth ac unrhyw dyllau archwilio, siafftiau awyru, pympiau neu ategolion eraill sy'n ffurfio rhan o unrhyw gyfryw garthffos, draen neu weithfeydd,

ac ym mhob achos yn cynnwys unrhyw strwythur y mae cyfarpar wedi'i osod neu i'w osod ynddo neu sy'n rhoi neu a fydd yn rhoi mynediad i gyfarpar;

mae "swyddogaethau" yn cynnwys pwerau a dyletswyddau;

mae "mewn", yng nghyd-destun cyfeirio at gyfarpar neu gyfarpar amgen mewn tir, yn cynnwys cyfeiriad at gyfarpar neu gyfarpar amgen o dan, dros neu ar dir;

ystyr "ymgymerwr cyfleustod" yw—

(a) unrhyw ddeiliad trwydded o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Trydan 1989;

(b) cludwr nwy o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986(**3**);

---

(**1**) 1989 p. 29.
(**2**) Diwygiwyd adran 102(4) gan adran 96 o Ddeddf Dŵr 2003. Diwygiwyd adran 104 gan adran 96 o Ddeddf Dŵr 2003 a Rhan 3 o Atodlen 9 i'r ddeddf honno a chan adran 42(3) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).
(**3**) 1986 p. 44. Diffinnir "cludwr nwy" yn adran 7. Amnewidiwyd adran 7 newydd gan adran 5 o Ddeddf Nwy 1995 (p. 45) ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan adran 76 o Ddeddf Cyfleustodau 2000.

(c) ymgymerwr dŵr(**4**); a

(d) ystyr ymgymerwr carthffosiaeth, ar gyfer ardal y gweithfeydd ar y tir, ac mewn perthynas ag unrhyw gyfarpar, yw'r ymgymerwr cyfleustod y mae'n eiddo iddo neu sy'n ei gynnal a'i gadw.

(**4**) Diffinnir "ymgymerwr dŵr" yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978.